OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2004 Rhif 870 (Cy.85)

LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cynnal Refferenda) (Cymru) 2004

Wedi'u gwneud - -	*23 Mawrth 2004*
Yn dod i rym - -	*24 Mawrth 2004*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adran 26 o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993(**1**) ac adrannau 13(3), 45 a 105 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000(**2**), ar ôl ymgynghori â'r Comisiwn Etholiadol yn unol ag adran 45(8A) i (8D) o'r Ddeddf honno ac ar ôl bodloni'r gofynion o ran cyflwyno yn adran 45(8B) ac (8D), yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Gelwir y Rheoliadau hyn yn Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cynnal Refferenda) (Cymru) 2004 a byddant yn dod i rym ar 24 Mawrth 2004.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys ar gyfer cynnal refferenda gan awdurdodau lleol yng Nghymru.

Dehongli

2.—(1) Yn y Rheoliadau hyn, ac yn unrhyw ddarpariaeth a gymhwysir gan y Rheoliadau hyn —

golyga "Deddf 2000" ("*the 2000 Act*") Ddeddf Llywodraeth Leol 2000;

golyga "Deddf yr Etholiadau" ("*the Elections Act*") Ddeddf y Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000(**3**);

golyga "Deddf CB 2000" ("*the RP Act 2000*") Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 2000(**4**));

golyga "Deddf 1985" ("*the 1985 Act*") Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1985(**5**);

golyga "Deddf 1983" ("*the 1983 Act*") Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983(**6**);

(**1**) 1993 p.38.
(**2**) 2000 p. 22. Parthed cymhwyso'r Ddeddf honno i Gymru, *gweler* adran 106. Diwygiwyd Adran 45 gan Ddeddf y Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 (p.41), adran 158(1), Atodlen 21, paragraff 18.
(**3**) 2000 p.41.
(**4**) 2000 p.2.
(**5**) 1985 p.50.
(**6**) 1983 p.2.

golyga "Rheoliadau Etholiadau" ("*the Elections Regulations*") Reoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Cymru a Lloegr) 2001(**7**);

golyga "Rheolau Refferendwm LGA" ("*the LGA Referendum Rules*") gymaint o Reolau'r Prif Ardaloedd ag a gymhwysir, gyda newidiadau neu hebddynt(**8**), o ran refferendwm gan reoliad 8 o'r Rheoliadau hyn;

golyga "Cynulliad Cenedlaethol" ("*the National Assembly*") Gynulliad Cenedlaethol Cymru;

golyga "Rheolau Etholiadau Seneddol" ("*the Parliamentary Elections Rules*") y rheolau a nodir yn Atodlen 1 o Ddeddf 1983;

golyga "Rheoliadau Deisebau a Chyfarwyddiadau" ("*the Petitions and Directions Regulations*") Reoliadau'r Awdurdodau Lleol (Refferenda) (Deisebau a Chyfarwyddiadau) (Cymru) 2001(**9**);

golyga "Rheolau'r Prif Ardaloedd" ("*the Principal Areas Rules*") Reolau Etholiadau Lleol (Prif Ardaloedd) 1986(**10**);

golyga "arsylwr cyfrif" ("*counting observer*") rywun a benodir gan swyddog cyfrif dan reoliad 13(1)(b);

golyga "swyddog cyfrif" ("*counting officer*") rywun y cyfeirir ato yn rheoliad 11(1);

golyga "maer etholedig" ("*elected mayor*"), o ran yr awdurdodau lleol, unigolyn a etholir yn faer ar yr awdurdod lleol gan etholwyr llywodraeth leol ardal yr awdurdod lleol yn unol â'r darpariaethau a wnaed gan Ran II o Ddeddf 2000 neu oddi tani;

golyga "refferendwm pellach" ("*further referendum*") refferendwm a gynhelir yn unol â gorchymyn dan reoliad 17(3);

golyga "cynigion amlinellol wrth gefn" ("*outline fall-back proposals*") —

(a) o ran cynigion dan reoliad 17 (gweithred cyn refferendwm) neu reoliad 19 (gweithred yn dilyn cyfarwyddyd) o Reoliadau Deisebau a Chyfarwyddiadau, amlinelliad o'r cynigion y mae'r awdurdod lleol yn bwriadu eu gweithredu petai'r cynigion a fydd yn destun refferendwm dan Ran II neu Ran III o'r Rheoliadau hynny'n cael eu gwrthod yn y refferendwm hwnnw;

(b) o ran cynigion dan orchymyn dan adran 36 (refferendwm yn dilyn gorchymyn) o Ddeddf 2000, —

(i) os yw awdurdod lleol bryd hynny yn gweithredu trefniadau gweithredaeth neu drefniadau amgen, yna crynodeb o'r trefniadau hynny;

(ii) mewn unrhyw achos arall, amlinelliad o'r cynigion a bennir yn y gorchymyn y mae'r awdurdod lleol i'w gweithredu petai'r cynigion a fydd yn destun refferendwm yn cael eu gwrthod yn y refferendwm hwnnw;

golyga "trefnydd deiseb" ("*petition organiser*"), o ran refferendwm, rywun yr ymdrinnir ag ef at ddibenion paragraff (4) neu, yn ôl y digwydd, paragraff (5) o reoliad 10 (ffurfioldebau deisebau) o Reoliadau'r Deisebau a Chyfarwyddiadau, fel trefnydd unrhyw ddeiseb ddilys (p'un ai a yw'r ddeiseb yn gyfunedig, yn ddeiseb gyfansoddol neu'n ddeiseb wedi'r cyhoeddiad) a dderbyniwyd gan yr awdurdod lleol sy'n cynnal y refferendwm neu'r hwn y'i cynhelir ar ei gyfer(**11**));

(**7**) O.S. 2001/341, fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2001/1149, 2001/1700, 2002/881, 2002/1871, 2003/1899.
(**8**) *Gweler*, yn benodol, Dabl 3 yn Atodlen 3.
(**9**) O.S. 2001/2292 (W.180) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2003/398 (Cy.55).
(**10**) O.S. 1986/2214; fel y'i diwygiwyd gan O.S. 1987/261, 1990/158, 1995/1948, 1998/578, 2000/247, 2001/81 a 2002/185.
(**11**) O.S. 2001/2292 fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2003/398. Ceir diffiniad o "drefnydd y ddeiseb" yn rheoliad 3 o Gyfarwyddiadau Deisebau a Rheoliadau. O ran dilysrwydd deisebau, *gweler* rheoliad 9(1) o'r Rheoliadau hynny. O ran deisebau cyfunedig, deisebau cyfansoddol neu rai wedi'r cyhoeddiad, ceir diffiniadau perthnasol yn rheoliad 3 o'r Rheoliadau hynny.

golyga "arsylwr y pôl" ("*polling observer*") rywun a benodir gan swyddog cyfrif dan reoliad 11(3);

mae i "swyddog priodol" ("*proper officer*") yr ystyr a roddir gan adran 270(3) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972(**12**);

golyga "dyddiad cynigion" ("*proposals date*") —

(a) o ran refferendwm, ac eithrio refferendwm pellach, y dyddiad y caiff y cynigion —

(i) dan reoliad 17 neu 19 o Reoliadau'r Deisebau a Chyfarwyddiadau; neu

(ii) dan orchymyn dan adran 36 o Ddeddf 2000

eu hanfon i'r Cynulliad Cenedlaethol; a

(b) o ran refferendwm pellach, y diwrnod a egyr 2 fis cyn y diwrnod y cynhelir y refferendwm pellach;

golyga "refferendwm" ("*referendum*") refferendwm a gynhelir yn rhinwedd rheoliadau neu orchymyn a wneir dan unrhyw un o ddarpariaethau Rhan II (trefniadau o ran gweithrediaethau etc.) o Ddeddf 2000;

golyga "cyfnod y refferendwm" ("*referendum period*"), o ran refferendwm (gan gynnwys refferendwm pellach), y cyfnod sy'n cychwyn ar —

(a) lle bo dyddiad y cynigion yn rhagflaenu'r dyddiad y daw'r Rheoliadau hyn i rym, y dyddiad y daw'r Rheoliadau hyn i rym;

(b) ym mhob achos arall, dyddiad y cynigion,

a gan ddiweddu ar ddyddiad y refferendwm; a

golyga "ardal y bleidlais" ("*voting area*") yr ardal lle cynhelir refferendwm.

(2) Mae pob cyfeiriad yn y darpariaethau canlynol o'r Rheoliadau hyn at adran a rhif yn ei dilyn, onid yw'r cyd-destun yn mynnu'n wahanol, yn gyfeiriad at yr adran o Ddeddf 2000 sy'n dwyn y rhif hwnnw.

Y datganiad a'r cwestiwn a ofynnir mewn refferendwm

3.—(1) Os yw'r cynigion y cynhelir refferendwm yn eu cylch yn ymwneud â gweithrediaeth o faer a chabinet(**13**), bydd y datganiad a ddaw o flaen y cwestiwn ("y datganiad") a'r cwestiwn a ofynnir yn y refferendwm hwnnw ar y ffurf a bennir ym mharagraff 1 o Ran I o Atodlen 1 o'r Rheoliadau hyn.

(2) Os yw'r cynigion y cynhelir refferendwm yn eu cylch yn ymwneud â gweithrediaeth o faer a rheolydd y cyngor(**14**), bydd y datganiad a'r cwestiwn a ofynnir yn y refferendwm hwnnw ar y ffurf a bennir ym mharagraff 2 o Ran I o Atodlen 1.

(3) Os yw'r cynigion y cynhelir refferendwm yn eu cylch yn ymwneud â gweithrediaeth o arweinydd a chabinet(**15**), bydd y datganiad a'r cwestiwn a ofynnir yn y refferendwm hwnnw ar y ffurf a bennir ym mharagraff 3 o Ran I o Atodlen 1.

Cyhoeddusrwydd a hysbysrwydd arall o ran refferenda

4.—(1) Bydd y swyddog priodol, a hynny cyn gynted ag y modd wedi'r dyddiad cynigion, yn cyhoeddi yn o leiaf un o'r papurau newydd a gylchredir yn ardal yr awdurdod lleol, rybudd a fydd yn cynnwys —

(**12**) 1972 p.70.
(**13**) *Gweler* adran 11(2) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000.
(**14**) *Gweler* adran 11(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000.
(**15**) *Gweler* adran 11(3) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000.

(a) datganiad, yn ôl y digwydd, bod —

(i) cynigion dan reoliad 17(3) neu 19(1) o Reoliadau Deisebau a Chyfarwyddiadau, neu

(ii) cynigion dan orchymyn dan adran 36,

wedi eu hanfon i'r Cynulliad Cenedlaethol;

(b) disgrifiad o brif nodweddion y cynigion a'r cynigion amlinellol wrth gefn;

(c) datganiad —

(i) y cynhelir refferendwm,

(ii) o'r dyddiad y cynhelir y refferendwm,

(iii) o'r cwestiwn a ofynnir yn y refferendwm,

(iv) lle bo'r awdurdod lleol wedi gwneud penderfyniad dan reoliad 10(1), na chaiff y pleidleisiau yn y refferendwm ond eu bwrw trwy bleidlais bost,

(v) lle na wnaed penderfyniad o'r fath, ac eithrio ar gyfer oriau estynedig ar gyfer pleidleisio caiff y refferendwm ei gynnal yn unol â'r dulliau a arferir mewn etholiadau llywodraeth leol,

(vi) o'r cyfyngiad ar dreuliau'r refferendwm (fel y'u diffinnir yn rheoliad 6(1)) yr hwn a fydd yn gymwys o ran y refferendwm, ac o nifer yr etholwyr llywodraeth leol a gyfrifwyd er mwyn mesur y cyfyngiad hwnnw,

(vii) o'r cyfeiriad a'r amserau lle bydd modd archwilio copi o'r cynigion, a chynigion amlinellol wrth gefn yr awdurdod lleol, a

(viii) o'r drefn ar gyfer cael copi o'r cynigion a'r cynigion amlinellol wrth gefn.

(2) Oni chaiff y rhybudd y mae'n ofynnol ei gyhoeddi yn ôl paragraff (1) ("y rhybudd cyntaf") ei gyhoeddi lai na 56 o ddiwrnodau cyn dyddiad y refferendwm, bydd y swyddog priodol yn cyhoeddi ail rybudd a fydd yn cynnwys y manylion a bennir ym mharagraffau (i) hyd (viii) o is-baragraff (c) o baragraff (1).

(3) Caiff yr ail rybudd ei gyhoeddi —

(a) yn yr un papur neu bapurau newydd ag a ddefnyddiwyd ar gyfer cyhoeddi'r rhybudd cyntaf, a

(b) nid mwy na 55 o ddiwrnodau cyn dyddiad y refferendwm ac nid llai na 28 o ddiwrnodau cyn y dyddiad hwnnw.

(4) Drwy gydol cyfnod y refferendwm, yn y cyfeiriad ac yn ystod yr amserau a nodir yn y rhybudd, a hynny'n ddi-dâl, bydd yr awdurdod lleol yn darparu copi o'u cynigion a'u cynigion amlinellol wrth gefn, i'r cyhoedd eu harchwilio, a byddant yn sicrhau bod digon o gopïau ar gael ar gyfer pwy bynnag a fydd am gael copïau.

(5) Caiff yr awdurdod ddarparu (boed yn unol ag unrhyw ddyletswydd i wneud hynny ai peidio) unrhyw wybodaeth ffeithiol arall sy'n perthyn i'r cynigion, y cynigion amlinellol wrth gefn a'r refferendwm cyn belled â'i bod yn cael ei chyflwyno'n deg.

(6) Wrth benderfynu a yw unrhyw wybodaeth yn cael ei chyflwyno'n deg at ddibenion paragraff (5), rhaid rhoi ystyriaeth, yn unol ag adran 38, i unrhyw ganllawiau am y tro ac a gyhoeddir gan y Cynulliad Cenedlaethol o dan adran 38.

Cyfyngu ar gyhoeddi etc. deunydd hyrwyddo

5.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys i unrhyw ddeunydd sydd —

(a) yn darparu gwybodaeth gyffredinol am y refferendwm;

(b) yn ymwneud ag unrhyw un o'r materion a godir gan y cwestiwn i'w ofyn yn y referendwm; neu

(c) yn cyflwyno unrhyw ddadleuon o blaid neu yn erbyn ateb penodol i'r cwestiwn hwnnw.

(2) Yn ddarostyngedig i baragraff (3), ni chaiff neb gyhoeddi unrhyw ddeunydd y mae'r rheoliad hwn yn bethnasol iddo gan neu ar ran awdurdod lleol yn ystod y cyfnod o 28 diwrnod sy'n dod i ben ar ddyddiad y bleidlais yn y refferendwm.

(3) Nid yw paragraff (2) yn gymwys i —

(a) ddeunydd a drefnwyd iddo fod ar gael i bersonau mewn ymateb i geisiadau arbennig am wybodaeth neu i bersonau sy'n cael mynd ati yn benodol;

(b) cyhoeddi gwybodaeth sy'n perthyn i gynnal y bleidlais yn y refferendwm; neu

(c) cyhoeddi datganiadau i'r wasg ac sy'n cynnwys gwybodaeth ffeithiol os unig ddiben y cyhoeddi yw gwadu neu gywiro unrhyw anghywirdeb mewn deunydd a gyhoeddir gan berson ar wahân i'r awdurdod lleol.

(4) Yn y rheoliad hwn bydd "cyhoeddi" yn golygu darparu i'r cyhoedd yn gyffredinol, neu i unrhyw ran o'r cyhoedd, ar ba bynnag ffurf a thrwy ba bynnag ddull (gan gynnwys, yn arbennig felly, drwy gynhwysiad mewn unrhyw raglen a gynhwysir mewn gwasanaeth rhaglenedig yn unol â ystyr Deddf Ddarlledu 1990(**16**)); ac fe ddeellir "cyhoeddiad" yn yr un modd.

Cyfyngiad cyffredinol ar dreuliau'r refferendwm

6.—(1) Yn y rheoliad hwn ac yn rheoliad 7—

golyga "trefnydd yr ymgyrch" ("*campaign organiser*") yr unigolion neu'r corff yr achosir treuliau iddynt neu ar eu rhan yn y refferendwm (gan gynnwys y treuliau yr ymdrinnir â hwy megis petaent wedi eu hachosi) o ran ymgyrch refferendwm;

golyga "ymgyrch refferendwm" ("*referendum campaign*") ymgyrch a gynhelir gyda'r bwriad o hyrwyddo neu sicrhau canlyniad neilltuol parthed y cwestiwn a ofynnir yn y refferendwm;

golyga "treuliau refferendwm" ("*referendum expenses*") y treuliau a achosir gan unigolyn neu gorff neu'r hwn a achosir ar ei ran yn ystod y refferendwm at ddibenion y refferendwm o ran unrhyw un o'r materion a nodir ym mharagraff 1 o Atodlen 2 o'r Rheoliadau hyn, fel y'u darllenir gyda pharagraff 2 o'r Atodlen honno;

golyga "cyfyngiadau treuliau'r refferendwm" ("*referendum expenses limit*") y cyfanswm o £2,000 a'r cyfryw swm a geir o luosogi nifer y cofnodion yn y gofrestr berthnasol â phum ceiniog;

golyga "at ddibenion y refferendwm" ("*for referendum purposes*") —

(a) o ran cynnal neu reoli unrhyw ymgyrch a gynhelir gyda'r bwriad o hyrwyddo neu sicrhau canlyniad neilltuol parthed y cwestiwn a ofynnir yn y refferendwm; neu

(b) fel arall o ran hyrwyddo neu sicrhau canlyniad o'r fath; a

golyga "y gofrestr berthnasol" ("*the relevant register*") y gofrestr (neu'r cofrestrau) etholwyr llywodraeth leol a gyhoeddwyd dan adran 13 (cyhoeddi cofrestrau) o Ddeddf 1983 (fel y'i dirprwywyd) ar ôl terfyn y canfasio a gynhaliwyd dan adran 10 o'r Ddeddf honno yn yr union flwyddyn a ragflaenodd y flwyddyn y cynhelir y refferendwm ynddi, sydd mewn grym yn ardal yr awdurdod lleol sy'n cynnal y refferendwm neu'r hwn y cynhelir y refferendwm ar ei gyfer (ni waeth a yw'r bobl y mae'r cofnodion hynny'n ymwneud â hwy'n gymwys i bleidleisio yn y refferendwm ai peidio).

(2) Ni fydd cyfanswm y treuliau a achosir yn ystod y refferendwm, neu'n unol â rheoliad 7 y rhai yr ymdrinnir â hwy fel petaent wedi eu hachosi, gan unigolyn neu gorff neu ar eu rhan, yn fwy na chyfyngiad treuliau'r refferendwm.

(**16**) 1990 p.42. Mae'r diffiniad o "programme service" i'w gael yn adran 201.